# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 10-09 (p3) : 2 Ebrill 2009**

## Gwybodaeth am "Skill": Y Biwro Cenedlaetholi Fyfyrwyr ag Anableddau

"Skill" sy'n hyrwyddo cyfleoedd i roi grym i bobl ifanc ac oedolion gydag unrhyw fath o anableddau i wireddu eu potensial mewn addysg, gwirfoddoli a chyflogaeth bellach, parhaus ac uwch drwy'r Deyrnas Gyfunol drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor i unigolion, gan hyrwyddo arferion a dylanwad da. Mae "Skill Wales/Cymru" yn cael ei redeg gan Bwyllgor Cangen gwirfoddol sy'n is-grwp o Fwrdd Ymddiriedolwyr Skill. Wedi ei ariannu hyd Ragfyr 2008 gan y Loteri Fawr yng Nghymru, mae Skill Wales/Cymru wedi paratoi cynllun strategol i Gymru ac ar hyn o bryd mae'n ceisio cael cyllid i barhau â'i waith ar addysg ôl-16 yng Nghymru.

### Pwrpas

Mae'r ddogfen hon yn rhoi cefndir ac awgrymiadau i'r Pwyllgor Menter ac Addysg ar fater y Ddeiseb Anghenion Dysgu Ychwanegol Ôl-19 gafodd ystyriaeth yn wreiddiol gan y pwyllgor ar Dachwedd 6ed, 2008. Yn yr adran argymhellion, mae Skill yn gofyn i'r pwyllgor ystyried yr esiampl yn Nwyrain Lloegr lle nad oes colegau preswyl arbenigol. Yno, mae'r cyngor Dysgu a Sgiliau wedi cyflwyno broceriaid annibynnol ar gyfer pobl anabl rhwng 16 a 25 sy'n dwyn ynghyd y gwasanaethau iechyd, addysg ac eraill er mwyn darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion.

### Cefndir

Mae'r Cynulliad eisoes wedi cydnabod bod darparu addysg ar gyfer pobl ag anableddau dirfawr a chymhleth yn faes cymhleth ac yn mynd yn fwy cymhleth ar ôl 19 oed. Rhai blynyddoedd yn ôl, cynhaliodd Skill brosiect ymchwil ar anghenion addysgu y grwp hwn o bobl ifanc (Enhancing Quality of Life, Skill 2002) i ganfod, nid yn unig yr anghenion addysgu, ond hefyd sut y gallai rhaglen addysgu â chamau bychain gael ei chyflwyno mewn cyd-destun oedolion. Roedd yr ymchwil yn dangos y gallai cyfleoedd dysgu llwyddiannus gael eu cyflwyno drwy amrywiaeth o ddarparwyr dysgu gyda chymorth perthnasol.

Mae 'Skill' yn cydnabod gwaith gwych y Colegau Preswyl Cenedlaethol (National Residential Colleges) sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc anabl sydd angen cwricwlwm 24 awr a lle nad oes dewis arall lleol ar gael. Yn hanesyddol mae'r colegau hyn i gyd yn Lloegr ac yn derbyn myfyrwyr o Gymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Niferodd bach o fyfyrwyr mae'r rhain yn eu derbyn. Mae proffil y myfyrwyr wedi newid dros y blynyddoedd ac mae gan fwyafrif o'r myfyrwyr anableddau ac anghenion dysgu a chymorth lluosog.

Yn dilyn cyhoeddi adroddiadau megis 'Inclusive Learning' gan Yr Athro John Tomlinson (a gyhoeddwyd yn 1996 ar gyfer yr 'English Further Education Funding Council'), 'Valuing People' (Yr Adran Iechyd yn 2001) a 'Valuing People Now: A new three year strategy for people with learning disabilities' (Yr Adran Iechyd; Ionawr 2009), bu'r ffocws ar ddulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion gan gychwyn â'r dysgwr yn y canol gan ddenu'r gefnogaeth o amgylch y person unigol. Drwy hyn, anogwyd teuluoedd a phobl broffesiynol i chwilio am fwy o ddewis ar gyfer addysg ôl-19 yn hytrach na 'darpariaeth breswyl hirbell neu ddim o gwbl'. Ac yn wir, mae cyrff ariannu wedi edrych tua'r dyfodol a'i ganfod yn her i ariannu darpariaeth breswyl hyd at dair blynedd, sy'n gallu bod cymaint â £60,000 y flwyddyn.

Comisiynodd y Cyngor Dysgu a Sgiliau yn Lloegr adolygiad o'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr oedran 16+ â phroblemau dysgu a/neu ag anableddau, gyda Peter Little, OBE, fel cadeirydd annibynnol. Roedd yr argymhellion yn cynnwys edrych sut y gellid gwella'r cydbwysedd rhwng costau coleg preswyl arbenigol lle roedd ei bennaf angen a datblygu darpariaeth fwy lleol.

Yn 2004 roedd rhanbarth Gogledd Ddwyrain Lloegr o'r Cyngor Dysgu a Sgiliau, wrth gydnabod nad oedd ganddo unrhyw goleg preswyl yn ei ardal, wedi dyfarnu'r swm cyfatebol i'r hyn wariwyd ar golegau preswyl pell i gael ei wario ar ddatblygu darpariaeth fwy lleol, neu ranbarthol. Gwnaed hyn drwy annog partneriaid o'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i gyflwyno pecynnau sy'n canolbwyntio ar unigolion i bob person unigol. Gallai hyn gynnwys addysg bellach, cymorth gofal, tai â chymorth, therapi corfforol neu anghenion iechyd cysylltiol eraill.

Cafodd y rhaglen hon ei gwerthuso mewn adroddiad gan 'LSC East of England' sef: "Improving Choice in post 16 education for Young People with Learning Difficulties and/or Disabilities', 2006". Mae'r rhaglen yn cynnwys rhai o'r nodweddion glustnodwyd fel blaenoriaethau yng Nghymru, er enghraifft, mae gan y syniad o gael brocer annibynnol i bobl ifanc anabl 16 – 25 yn Nwyrain Lloegr lawer sy'n gyffredin â'r trefniadau i gael gweithwyr allweddol ar gyfer y trosglwyddiad 16+ sydd wedi eu cynnig eisoes gan y Gweinidog.

### Argymhelliad

Mae'r deisebwyr wedi dynodi maes lle mae potensial i symud tuag at ddull sy'n canolbwyntio fwy ar unigolion ac felly'n rhoi'r gwell dewis y mae'r ddeiseb yn ei geisio. Mae'r niferoedd o bobl ifanc o flwyddyn i flwyddyn sydd ag anghenion dirfawr a chymhleth ym maes dysgu yn debygol o fod yn isel, felly ni fyddai dull mwy lleol gyda phrotocolau cydweithio rhwng addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn debygol o fod yn fiwrocrataidd feichus. Gallai Gyrfa Cymru, mudiadau gwirfoddol a theuluoedd i gyd fod yn cyfrannu tuag at y cynllunio.

Fodd bynnag, barn Skill ydy na ddylai dull o'r fath gael ei weld fel modd o arbed arian ar leoli all-genedlaethol, ond yn hytrwch ei fod yn defnyddio cyllidebau addysg cyfredol yn fwy effeithiol ac mewn modd mwy cydnaws ag anghenion pobl ifanc anabl. Gallai dull o'r fath gynnwys dynodi colegau AB arweiniol a chyswllt â darparwyr eraill, gan gynnwys y sector statudol a gwirfoddol, sy'n darparu cymorth, gofal a llety. Yn anochel, o wybod am y niferoedd isel o bobl ifanc anabl a daearyddiaeth Cymru, gallai hyn olygu symud o'r gymuned

leol ond byddai'n haws cadw cyswllt â'r cartref a'r gymuned a galluogi gwell cynllunio manwl ar yr opsiynau ôl-25 i oedolion ag anawsterau dysgu difrifol a chymhleth, fydd angen cymorth gydol oes.

Er mwyn darparu dull sy'n canolbwyntio ar unigolion, byddai'n rhaid gwneud defnydd llawn o'r data sy'n bodoli am y cohort o bobl ifanc yn yr ysgolion a byddai asiantaethau angen darparu ymrwymiadau cyllidol ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn awgrymu y byddai angen newid y trefniadau cynllunio a chyllido. Mae i'r dull hwn hefyd oblygiadau i'r broses asesu trosglwyddiad yn yr ysgolion, ond byddai'n cyfoethogi a chryfhau'r adolygiadau hyn, a chaniatáu i bobl ifanc a theuluoedd edrych ar y newid i fod yn oedolyn gyda mwy o hyder ac â chefnogaeth 'brocer' annibynnol.

## Diffiniadau

Drwy ymchwil mwy diweddar gan Skill, daeth yn eglur bod eisiau rhoi sylw i'r modd y diffinnir y cohort o bobl ifanc sydd ag 'anawsterau dysgu difrifol a chymhleth'. Yn Lloegr, nid yw diffiniadau ysgol o 'anawsterau dysgu difrifol' yr un fath â chanfyddiad ôl-16 y colegau. Mae'r deisebwyr yn sôn am grwp o bobl ifanc ag anableddau corfforol a dysgu cymhleth ac y mae hyn yn matsio'r adborth y mae Skill yn ei dderbyn oddi wrth y Colegau Preswyl bod anableddau eu myfyrwyr wedi mynd yn fwy cymhleth, wrth i golegau AB lleol yn Lloegr ddatblygu eu cymorth dysgu ychwanegol ar gyfer myfyrwyr anabl eraill. Yn wir, canfu adolygiad y Cyngor Dysgu a Sgiliau yn Lloegr mai'r myfyrwyr anabl nad oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu oedd:

y rhai ag anawsterau dysgu difrifol a chymhleth;

y rhai ag anghenion dysgu yn y sbectrwm awtistig;

pobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl.

Gyda dull sy'n canolbwyntio ar unigolion, mae'r pwyslais ar ganfod yr anghenion, nid categoreiddio, felly fyddai hyn ddim yn creu problemau. Fodd bynnag, byddai hyn yn galw am fwy o ddealltwriaeth gan gynllunwyr a chyllidwyr. Byddai hyn hyd yn oed yn fwy critigol pe byddai LlCC yn ystyried sefydlu Coleg Preswyl Cenedlaethol i Gymru gyfan, gan y byddai'r achos busnes yn dibynnu ar allu canfod yn eglur bod yna alw am hynny. Byddai'n anffodus os byddai i bobl ifanc, allai fod yn cael profiad addysg bellach mwy lleol, yn canfod eu hunain mewn darpariaeth breswyl arwahanol 'er mwyn cadw'r rhifau i fyny' a byddai hynny, ym marn Skill, yn groes i'r canlyniadau mae'r deisebwyr yn dymuno eu cael.

**Skill: National Bureau for Students with Disabilities [Biwro Cenedlaethol Myfyrwyr ag Anableddau]**
**Skill Wales/Cymru**
**Mawrth 2009**